CABINET

DYDD LLUN, 13 IONAWR 2025

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

G. Davies	L.D. Evans	P.M. Hughes	A.C. Jones
A. Lenny	E.G. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
H.A.L. Evans

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters - Prif Weithredwr
C. Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
A. Williams - Cyfarwyddwr Lle & Seilwaith
O. Lloyd - Cyfarwyddwr Addysg & Plant
P. Thomas - Prif Weithredwr Cynorthwyol
R. Griffiths - Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
J. Morgan - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
S. Murphy - Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil
C. Higginson - Rheolwr Cyfryngau
L. Jenkins - Swyddog Cymorth y Cabinet
K. Evans - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
D. Hall-Jones - Swddog Cymorth i'r Aelodau
S. Rees - Cyfieithydd ar y Pryd
L. Davies - Interniaeth Iaith Gymraeg (Marchnata a'r Cyfryngau) (arsylwi)
C. Evans - Interniaeth Iaith Gymraeg (Marchnata a'r Cyfryngau) (arsylwi)

Also Present (Virtually):
Councillor D. Cundy, Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid
S. Gallagher, Prif Weithredwr CWM (mewn perthynas ag eitem 17)

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.13yb - 11.43 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd / Swyddog	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd H.A.L. Evans	8 – Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2025/26	Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Y Cynghorydd H.A.L. Evans	9 - Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2025-28 Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin	Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai
Y Cynghorydd P.M. Hughes	8 – Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2025/26	Mae'n rhentu eiddo
Y Cynghorydd P.M. Hughes	9 - Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2025-28 Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin	Mae'n rhentu eiddo
Y Cynghorydd D. Price	8 – Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2025/26	Mae ei fam-gu yn denant i'r Cyngor.
Y Cynghorydd D. Price	9 - Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2025-28 Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin	Mae ei fam-gu yn cael rhyw fath o fudd o'r cynllun.

3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 16FED RHAGFYR 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2024 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2025/26 I 2027/28

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am broses y gyllideb, setliad dros dro presennol Llywodraeth Cymru ac amserlen y setliad terfynol ac yn clustnodi'r gwasgfeydd dilysu a'r gwasgfeydd cyllidebol y byddai'n rhaid i'r Aelodau roi sylw iddynt wrth bennu cyllideb refeniw'r flwyddyn nesaf. Bydd yr adroddiad yn sail i'r broses ymgynghori ar y gyllideb a fydd yn cael ei chynnal yn ystod Ionawr.

Mynegwyd pryder ynghylch y pwysau digynsail sy'n wynebu pob Awdurdod Lleol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

6.1 bod y Strategaeth Gyllideb tair blynedd 2025/26 i 2027/28 yn cael ei chymeradwyo a bod y strategaeth yn cael ei defnyddio i gefnogi ymgynghori ynghylch y gyllideb ac yn sail i lunio'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb;

6.2 Nodi'r gostyngiadau yn y gyllideb / cynigion arbedion yn Atodiad A, a fydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad;

6.3 nodi'r swm heb ei ddyrannu o £320k yn y strategaeth gyfredol yn 2025/26, a fydd yn cael ei ystyried ymhellach ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad fel y nodir ym mharagraff 2025 o'r adroddiad.

7. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) 2025/26 I 2029/30

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y cynigion diweddaraf am Raglen Gyfalaf Bum Mlynedd 2025/26 i 2029/30, a oedd yn sail i'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb gyda'r aelodau a phartïon perthnasol eraill. Byddai adborth o'r broses ymgynghori hon, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau, yn llywio adroddiad cyllideb terfynol y Rhaglen Gyfalaf i'w gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Sir ym mis Chwefror 2025.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet y byddai'r rhaglen yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 31 Ionawr, 2025.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL :

7.1 bod yr adroddiad yn cael ei nodi a'i gymeradwyo fel y rhaglen gyfalaf dros dro at ddibenion ymgynghori;

7.2 bod yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 31 Ionawr, 2025.

8. CYFRIF REFENIW TAI A PHENNU RHENTI TAI 2025/26

[NODER: Gan eu bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorwyr H.A.L. Evans, P.M. Hughes a D. Price y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad oedd yn darparu Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2025-28 a Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin. Ar ddechrau pob blwyddyn, mae cynllun busnes yn cael ei lunio sy'n egluro gweledigaeth yr Awdurdod a'r rhaglenni buddsoddiadau tai tair blynedd i gynnal a chadw ein stoc a darparu mwy o dai fforddiadwy.

Roedd Atodiad A, a atodwyd i'r adroddiad, yn darparu'r Gyllideb Cyfrif Refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Roedd Atodiad B, a atodwyd i'r adroddiad, yn darparu'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025/28.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR

8.1 cynyddu'r rhent tai cyfartalog 2.7% (£2.85) fesul preswylfa yr wythnos oddi mewn i derfynau Polisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y cynnydd ar gyfer tenantiaid sy'n is na'r rhenti targed). Mae hyn yn creu Cynllun Busnes cynaliadwy, yn cynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) ac yn cyflawni ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai;

8.2 parhau â'r cynnydd mwyaf posibl o £1 a ganiateir ar gyfer rhenti sy'n is na'r rhenti arfaethedig ar gyfer pob math o stoc;

8.3 cynyddu rhenti garejis 2.7% o £9.60 i £9.86 a sylfeini garejis o £2.22 i £2.28;

8.4 rhoi'r Polisi ynghylch Taliadau am Wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid sy'n cael budd o wasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;

8.5 cynyddu'r taliadau am ddefnyddio ein gweithfeydd trin carthffosiaeth yn unol â'r cynnydd mewn rhent;

8.6 cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai am2025/28 (cyllidebau dangosol oedd rhai 2026/27 A 2027/28), fel y nodwyd yn Atodiad A;

8.7 cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllido perthnasol ar gyfer 2025/26 a'r gwariant mynegiannol a bennwyd ar gyfer 2026/27 hyd at 2027/28, fel y'u nodwyd yn Atodiad B.

9. CYNLLUN BUSNES 2025-28 Y CYFRIF REFENIW TAI RHAGLEN BUDDSODDIADAU TAI SIR GAERFYRDDIN

[NODER: Gan eu bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorwyr H.A.L. Evans, P.M. Hughes a D. Price y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynigion diweddaraf ar gyfer cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai am 2025/2028. Hefyd mae'r Adroddiad yn amlinellu sut y bydd rhenti tai yn cynyddu ar gyfer 2025/26.

Nododd yr adroddiad fod yr incwm a gafwyd o renti tenantiaid a ffynonellau cyllid eraill yn galluogi'r awdurdod i lunio rhaglen fuddsoddi sy'n fwy na £282m (Cyfalaf - £114m a Refeniw - £168M) i ddarparu gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf.

Nodwyd yn y cynllun ei fod yn seiliedig ar gynnydd rhent rhagamcanol i 2.7% ar gyfer 2025/26, yn unol â Pholisi Rhent presennol Llywodraeth Cymru a osodwyd gan gyfradd chwyddiant Medi o 1.7%. Byddai'r rhan fwyaf o denantiaid yn derbyn cynnydd cyfartalog mewn rhent o 2.62%, ac mae'r cynnydd hwn ymhell o fewn terfynau fforddiadwyedd tenantiaid.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR

9.1 **cadarnhau'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r meysydd i'w gwella ar gyfer ein rhaglenni buddsoddiadau tai dros y tair blynedd nesaf;**

9.2 **cytuno y gellir cyflwyno Cynllun Busnes 2025/26 i Lywodraeth Cymru;**

9.3 **nodi ein dull o reoli ystadau a thenantiaeth, gan sicrhau bod ein swyddogion tai yn fwy gweladwy a hygyrch ar ein stadau, gan gydbwyso'r cymorth sydd ei angen ar denantiaid a'r angen i gymryd camau gorfodi pan fo angen;**

9.4 **nodi ein hymrwymiad i sicrhau'r safon uchaf o gydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a pholisi lleol;**

9.5 **nodi ein hymrwymiad i sicrhau'r safon uchaf o gydymffurfiaeth â gofynion polisïau deddfwriaethol, rheoleiddiol a lleol;**

9.6 **cadarnhau ein hymrwymiad i wella'r gwasanaeth atgyweirio a lleihau'r ôl-groniad o atgyweiriadau nad ydynt yn rhai brys;**

9.7 **nodi ein hymrwymiad i gadw nifer yr eiddo gwag mor isel â phosibl;**

9.8 **nodi ein blaenoriaeth i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ym mhob ardal o'r Sir, gan gynnwys adeiladu safleoedd mawr ar gyfer tai Cyngor yn unig, cynyddu'r cyflenwad o lety ar gyfer pobl sengl / llety â chymorth dros dro / llety arbenigol a chefnogi mentrau adfywio ehangach gan gynnwys Canol Trefi a Thyisha;**

9.9 **nodi ein hymrwymiad i wneud ein holl gartrefi yn fwy ynni effeithlon i denantiaid trwy gynyddu inswleiddio thermol, gosod paneli solar drwy ein rhaglenni gwaith a gynlluniwyd a chefnogi egwyddorion carbon sero net y Cyngor;**

9.10 **nodi pwysigrwydd y buddsoddiad sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn a'i rôl o ran ysgogi'r economi leol a chreu swyddi a chyfleoedd hyfforddi lleol.**

10. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2025/26

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (a gyflwynwyd yn lle Budd-dal y Dreth Gyngor ym mis Ebrill 2013) am 2025/26.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Cyflwynwyd y cynllun safonol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2013/14 ac (gyda gwelliannau cyfyngedig) ar gyfer 2014/15 a'r blynyddoedd dilynol. Er ei fod yn gynllun Cymru gyfan, mae'n ofynnol i Gynghorau unigol gan y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ffurfiol erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn. Manylwyd ar yr ardaloedd cyfyngedig lle rhoddir disgresiwn lleol a'r polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r disgresiwn hynny yn yr adroddiad.

Yn amodol ar gymeradwyo a gweithredu'r rheoliadau ar 24 Ionawr, 2025;

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR

10.1 mabwysiadu'n ffurfiol Gynllun safonol Cymru Gyfan ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddarperir yn

a. Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013;

10.2 gweithredu'r ffigurau uwchraddio blynyddol (a ddefnyddir wrth gyfrif hawliadau) a diwygiadau technegol eraill, a gynhwysir yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio Amrywiol) (Cymru) 2025 sydd i ddod i rym ar 24 Ionawr 2025 ac mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wnaed ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025;

10.3 parhau i arfer ei ddisgresiwn o ran elfennau disgresiynol cyfyngedig y cynllun rhagnodedig, fel y'u hamlinellir yn y Crynodeb Gweithredol.

11. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2024, o ran 2024/25.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld gorwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £19.2m gan gynnwys cyllidebau ysgolion, ac yn rhagweld gorwariant o £8.7m ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod.

Roedd y gorwariant a ragwelwyd yn parhau i fod yn sylweddol ac roedd wedi cynyddu ar lefel adrannol. Roedd yn hanfodol i Brif Swyddogion a Phennaeth Gwasanaeth adolygu'r opsiynau sydd ar gael iddynt i gymryd camau brys a sylweddol i fynd i'r afael â'r effaith barhaus ar draws adrannau ac ysgolion.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad monitro'r gyllideb, a nodi'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol a gymerwyd.

12. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2024/25

Cafodd y Cabinet adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25, fel yr oedd ar 31 Hydref 2024 gan fanylu ar y prosiectau newydd a'r trosglwyddiadau ariannol. Nododd Atodiad A i'r adroddiad wariant net a ragwelir o £105,895k o gymharu â chyllideb net weithredol o £132,866k, gan roi amrywiad -£26,972k.

Roedd y gyllideb net yn cynnwys rhaglenni cyfalaf gwreiddiol y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn a llithriad o 2023/24. Roedd rhai o'r cyllidebau hefyd wedi cael eu diwygio yn unol â'r gwahaniaethau yn y dyraniadau grant gwirioneddol o gymharu â'r dyraniadau disgwyliedig pan gafodd y rhaglen ei chymeradwyo, a grantiau newydd oedd wedi dod i law yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn a'r trosglwyddiadau ariannol a gymeradwywyd.

Roedd Atodiad B i'r adroddiad yn nodi'r prif amrywiadau ym mhob adran.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

12.1 bod yr adroddiad diweddaru ar Raglen Gyfalaf 2024/25 yn cael ei dderbyn;

12.2 nodi'r prosiectau newydd, fel y manylwyd yn yr adroddiad a'u cytuno, i'w hariannu o danwariant ffioedd cyfalaf y flwyddyn gyfredol.

13. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL (CCA) DRAFFT AR SEILWAITH GWYRDD A GLAS, CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad, a oedd yn nodi cynigion i ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft - Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig ar seilwaith Gwyrdd a Glas, a atodwyd i'r adroddiad. Roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u paratoi i gefnogi gweithrediad y CDLl Diwygiedig ac yn adlewyrchu gwelliannau diweddar a wnaed i Bennod 6 o Argraffiad 12 Polisi Cynllunio Cymru.

Roedd dogfennau'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft yn rhoi eglurder ychwanegol ar feysydd polisi thematig penodol i gefnogi'u gweithrediad, yn darparu arweiniad, ac yn ymhelaethu ar bolisïau a darpariaethau'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig adeg ei fabwysiadu. Roedd pob Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ymwneud â maes polisi penodol o fewn y CDLl Mabwysiedig a Diwygiedig, ond yn canolbwyntio ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:

13.1 cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft, a nodir yn yr adroddiad, at ddibenion ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd;

13.2 darparu'r awdurdod dirprwyedig i swyddogion ddiweddaru neu newid unrhyw fân newidiadau ffeithiol, teipograffig neu ramadegol

14. LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2023/2024 CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Bu'r Cabinet yn ystyried llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2023/24 Cyngor Sir Caerfyrddin ynghyd â'r daflen ffeithiau a'r data cysylltiedig.

Nodwyd bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhoi llythyr i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru bob blwyddyn ar ffurf taflen ffeithiau a data ategol i'w cynorthwyo i adolygu perfformiad.

Nododd y Cabinet fod gwall teipio yn y daflen grynodeb. Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad, dylai fod wedi darllen OES.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2023/24 Cyngor Sir Caerfyrddin.

15. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

16. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

17. UWCHGYNLLUN NANTYCAWS

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o ddatgelu gwybodaeth fusnes ac ariannol yn ymwneud â'r Cyngor a Cwm Environmental a thrwy hynny niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol yn ymwneud â safle Nant-y-caws a weithredir gan Cwm Environmental.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o Brif Gynllun Nant-y-caws a ddatblygwyd i ddarparu gweledigaeth.

Cafodd y weledigaeth ar gyfer y Prif Gynllun ei fframio o amgylch y 4 thema ganlynol i adlewyrchu nodau craidd y prosiect ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer buddion ehangach gan gynnwys natur, mynediad i'r cyhoedd a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o egwyddorion economi gylchol:

- Ynni Adnewyddadwy
- Gwella Ecosystem
- Rheoli Gwastraff
- Cartref i'r Economi Gylchol yng Nghymru

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

CADEIRYDD	**DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf